Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Creu

## Arian gan y Loteri Genedlaethol i gefnogi'r celfyddydau

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Creu – Rhaglen Gyllido'r Celfyddydau y Loteri Genedlaethol**'.


**Ebrill 2021**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen help i'w darllen hi. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych i weld beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 25**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnws


Cyflwyniad....4

Am y gronfa Creu....5

Pobl rydyn ni eisiau eu cefnogi....6

Prosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi....7

Rhagor am brosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi....10

Prosiectau dydyn ni ddim yn gallu eu cefnogi....12

Pwy sydd yn gallu gwneud cais....13

Faint o arian rydych chi'n gallu ei gael?....13

Pryd i wneud cais....15

Rhestr....16

Help gyda'ch cais....17

Pa wybodaeth rydyn ni ei angen....18

Amdanoch chi....18

Am eich prosiect....19

Geiriau anodd....25

# Cyflwyniad



Mae gennym **ni** rywfaint o arian gan y **Loteri Genedlaethol**. Enw'r arian yma ydy Cronfa **Creu**.




Arian ydy cronfa **Creu** rydyn ni'n gallu ei roi i gefnogi prosiectau celfyddydau.




Mae'r ddogfen yma yn dweud wrthych chi sut i wneud cais am yr arian yma.



Mae dogfen arall y dylech chi ei darllen hefyd. Enw'r ddogfen arall ydy: **Cyllido'r Loteri Genedlaethol: beth rydych chi angen ei wybod wrth wneud cais**.



Fe fydd y ddwy ddogfen yma yn eich helpu i wneud cais da am gyllid.

# Am y gronfa Creu



Rydyn ni eisiau cynnig y gronfa **Creu** i brosiectau celfyddydau mae pawb yn gallu eu mwynhau.

Mae **Creu** yn gallu eich helpu chi, neu eich cymuned i:



- wneud prosiectau celfyddydau



- dangos prosiectau celfyddydau



- meddwl am syniadau newydd
- cael hyfforddiant



- tyfu eich busnes neu newid sut rydych chi'n gwneud busnes.

# Pobl rydyn ni eisiau eu cefnogi



Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau fod i bawb. Mae hyn yn bwysig iawn inni.



Felly fe fyddwn ni'n rhoi llawer o feddwl i **gydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant** pan fyddwn ni'n rhannu'r cyllid yma.




Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pawb yn deg.



Mae **amrywiaeth** yn meddwl cynnwys pobl gyda gwahanol gefndiroedd, fel pobl ddu, Asiaidd a **lleiafrif ethnig**. Mae hefyd yn meddwl cynnwys pobl o ardaloedd mwy tlawd. A phobl o wahanol **rywioldebau**.

Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan.



Pobl **lleiafrif ethnig** ydy pobl sydd yn byw mewn lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl erail yn hil gwahanol.

Mae **rhywioldeb** am pwy mae person yn ei hoffi.

# Prosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi

**Mae cyllid Creu ar gyfer mathau arbennig o brosiectau celfyddydau yn unig. Fel:**



Prosiectau sydd yn cefnogi'r un pethau â ni. Fel **cydraddoldeb**, **amrywiaeth** a **chynhwysiant**. A'r iaith Gymraeg.




Prosiectau gyda chynllun clir. Ac sydd yn cefnogi llawer o bobl **creadigol**. Nawr ac yn y dyfodol.



Mae pobl **greadigol** yn meddwl pobl sydd yn gwneud pethau.



Prosiectau fydd yn helpu i wneud y celfyddydau yn gryfach ac yn well yn y dyfodol.

**Mae llawer o wahanol fathau o brosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi. Dyma rai enghreifftiau:**



- Prosiectau sydd yn meddwl am syniadau newydd a ffyrdd newydd o fwynhau'r celfyddydau. Yn enwedig ar ôl Covid-19.



- Prosiectau fydd yn gweithio hyd yn oed gyda **chadw pellter cymdeithasol**. Fel rhith brosiectau a phrosiectau digidol.

Mae **cadw pellter cymdeithasol** yn meddwl cadw 2 fetr neu tua 3 cam oddi wrth bobl eraill i helpu i amddiffyn rhag dal Covid-19.



- Prosiectau sydd yn helpu busnes celfyddydau i newid. Fel eu bod nhw'n gryfach yn y dyfodol.




- Prosiectau sydd yn helpu pobl **greadigol** i ddysgu sgiliau newydd




- Prosiectau sydd yn dod â mwy o waith a gwybodaeth i Gymru o wledydd eraill.



- Prosiectau sydd yn cefnogi siaradwyr Cymraeg. A phobl **greadigol** Cymreig neu sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

# Rhagor am brosiectau rydyn ni eisiau eu cefnogi



Rydyn ni eisiau cefnogi prosiectau sydd yn cynnwys pob math o bobl. Er enghraifft:



- pobl o wahanol gymunedau



- plant, pobl ifanc a'u teuluoedd



- pobl fyddar a phobl gyda cholled clyw, pobl anabl a phobl **niwrowahanol**.



Pobl **niwrowahanol** ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.




Ar gyfer prosiectau gyda phlant, pobl ifanc neu **oedolion hyglwyf**, rhaid i chi gael **gweithdrefnau diogelwch**.



**Oedolion hyglwyf** ydy pobl sydd angen cefnogaeth yn eu bywyd o ddydd i ddydd.




Mae **gweithdrefnau diogelwch** yn meddwl rheolau am gadw pobl yn ddiogel.

# Prosiectau dydyn ni ddim yn gallu eu cefnogi

**Oherwydd Covid-19, mae rhai prosiectau dydyn ni ddim yn debygol o'u cefnogi. Er enghraifft:**



- Prosiectau oedd yn cael eu cynnal y tu mewn cyn Hydref 2021.



- Prosiectau mawr yn 2021 lle roedd hi efallai yn anodd **cadw pellter cymdeithasol**. Hyd yn oed os ydyn nhw y tu allan.



- Prosiectau sydd yn meddwl teithio o gwmpas y wlad cyn Gwanwyn 2022.



- Prosiectau sydd yn meddwl teithio i wledydd eraill yn 2021.




Fe fyddwn ni'n gwrando ar beth mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei ddweud am pryd mae hi'n ddiogel.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



Mae cyrff ac unigolion yn gallu gwneud cais.

## Faint o arian rydych chi'n gallu ei gael?




Rydych chi'n gallu gwneud cais am **£500** i **£50 mil**.



Yn dibynnu ar faint rydych chi'n gwneud cais amdano, efallai y byddwn ni'n rhoi'r arian i chi mewn rhannau.




Mae rheolau am faint o arian rydyn ni'n gallu ei roi i wahanol fathau o brosiectau. Fel hyfforddiant. Neu wyliau.




Rydyn ni'n gallu eich helpu chi gydag arian am y rhan fwyaf o'ch prosiect. Ond nid ar gyfer y cyfan.




Mae rheoli arian yn gallu bod yn anodd. Yn enwedig i brosiectau mawr.



Os oes gennych chi brosiect mawr, fe fyddwn ni'n edrych i weld eich bod chi'n gallu ei reoli.



Hyd yn oed os nad ydych chi'n gallu cael arian y **Loteri Genedlaethol** am ryw reswm, rydych chi'n dal i allu gwneud cais.



Pan rydych chi'n gwneud cais, ysgrifennwch lythyr yn dweud pam nad ydych chi yn gallu cael arian y **loteri cenedlaethol**.



Os oes gennych chi gais da, efallai y byddwn ni'n gallu cael arian i chi o rywle arall.

# Pryd i wneud cais




Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at £10 mil unrhyw amser o Mai 2021. Does dim dyddiad cau i wneud cais am yr arian yma.

Os ydych chi eisiau gwneud cais am fwy na £10,000, mae tri cyfle i wneud cais:





- Am y **cyfle cyntaf** rhaid i chi wneud cais cyn **5pm ar 3 Mehefin 2021**.




- Am yr **ail gyfle** rhaid i chi wneud cais cyn **5pm ar 25 Awst 2021**.




- Am y **trydydd cyfle** mae angen i chi wneud cais cyn **5 pm ar 13 Hydref 2021**.



**Dydyn ni ddim yn gallu rhoi arian i brosiectau sydd wedi dechrau'n barod.**

# Rhestr

Cyn i chi ddechrau eich cais, defnyddiwch y rhestr yma:



- Ydych chi'n cael gwneud cais?



- Ydych chi wedi rhoi'r holl ddogfennau rydyn ni eu hangen inni?



- Ydych chi'n siŵr bod eich prosiect yn cefnogi'r pethau sydd yn bwysig inni?




- Ai hwn ydy'r math o brosiect rydyn ni wedi dweud ein bod ni eisiau ei gefnogi?



Os ydych chi wedi ateb **ie** i'r holl gwestiynau, rydych chi'n barod i ddechrau eich cais.

# Help gyda'ch cais

Os ydych chi angen help gyda'ch cais neu os nad ydych chi'n siŵr eich bod chi'n gallu gwneud cais, cysylltwch â ni:




**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni



**E-bost:** grantiau@celf.cymru



**Ffôn:** 03301 242733

**Facebook:** Arts Council of Wales

**Twitter:** @Celf_Cymru

**Instagram:** celfcymruarts

# Pa wybodaeth rydyn ni ei angen



Dydyn ni ddim yn gallu rhoi arian i bawb. Felly mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi llawer o feddwl i'ch cais.



Fe fydd eich ffurflen gais yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi. Ac am eich prosiect.

## Amdanoch chi



Fe fyddwn ni angen gwybod gwybodaeth amdanoch chi. Fel:

- Eich manylion cyswllt.
- Pa iaith rydych chi eisiau ei defnyddio.
- Manylion eich cyfrif banc.
- Eich sgiliau a'ch profiad.
- Sut bydd y prosiect yn eich helpu chi i ddod yn well yn eich gwaith.

# Am eich prosiect



**Fe fyddwn ni angen gwybod gwybodaeth am eich prosiect. Fel:**



- Beth ydy enw eich prosiect.
- Am beth mae eich prosiect.
- Pam rydych chi eisiau gwneud y prosiect yma




- Pryd mae eich prosiect yn dechrau a gorffen



- Lle bydd eich prosiect.



- Faint o arian fyddwch chi ei angen. Yn cynnwys faint o arian fyddwch chi ei angen i wneud y prosiect yn **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl rhywbeth sydd yn hawdd i'w gyrraedd neu ei ddefnyddio.

## Sut byddwch chi'n cefnogi pethau sydd yn bwysig inni

Mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrthyn ni sut a pham y bydd eich prosiect yn cefnogi'r pethau sydd yn bwysig inni. Fel:




- **Cydraddoldeb** yn y celfyddydau



- **Amrywiaeth** yn y celfyddydau



- **Cynhwysiant** yn y celfyddydau



- Gwneud yn siŵr bod y celfyddydau yn fwy llwyddiannus yn y dyfodol
- Yr iaith Gymraeg



- Amddiffyn yr amgylchedd

# Manteision eich prosiect



Rydyn ni angen gwybod sut y bydd eich prosiect o fantais i wahanol bobl a chymunedau.



**Er enghraifft:**

- Ar gyfer pwy mae'r prosiect?

- Sut bydd eich prosiect yn cefnogi pobl a chymunedau?



- Sut byddwch chi'n cefnogi **cynhwysiant**?



- Sut bydd eich prosiect yn cefnogi'r celfyddydau? Nawr ac yn y dyfodol?

- Sut bydd eich prosiect yn cefnogi pobl **greadigol**? Nawr ac yn y dyfodol?



- Sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu yn deg?

## Dweud wrth bobl am eich prosiect



Mae'n bwysig eich bod chi'n cynllunio sut i ddweud wrth bobl am eich prosiect.

**Fe fyddwn ni eisiau gwybod:**



- Sut byddwch chi'n dweud wrth bobl am eich prosiect.
- Lle byddwch chi'n dweud wrth bobl am eich prosiect.



- Pwy fydd yn eich helpu chi?
- Sut byddwch chi'n dweud wrth bobl beth rydych chi wedi ei ddysgu wrth wneud eich prosiect?

## Rheoli eich prosiect



Mae'n bwysig eich bod chi'n gallu rheoli eich prosiect.


**Fe fyddwn ni eisiau gwybod pethau fel:**



- Ydy eich prosiect wedi cael ei dorri i lawr i wahanol rannau?
- Pwy fydd yn gweithio ar y gwahanol rannau yma o'r prosiect?



- Sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr bod y prosiect yn mynd yn dda?
- Sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr bod eich prosiect o ansawdd da?




- Sut byddwch chi'n dilyn rheolau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru am Covid?
- Beth byddwch chi'n ei wneud os ydy rheolau Covid yn newid?

## Rhagor o fanylion am eich prosiect



Fe fyddwn ni eisiau gwybod rhagor o fanylion am eich prosiect hefyd. Fel:




- Pa fathau o gelfyddydau fydd yn eich prosiect? Er enghraifft, cerddoriaeth, crefftau neu farddoniaeth?
- Pa wahanol weithgareddau fydd yn eich prosiect?
- Sut byddwch chi'n dangos eich gwaith? Ac i faint o bobl?

## Gwybodaeth ychwanegol



Os ydych chi eisiau **mwy** na **£10,000**, dywedwch rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am eich prosiect.



Peidiwch ag anfon mwy na 5 tudalen o wybodaeth ychwanegol. A gwnewch maint y ffont yn 12 pwynt neu fwy .

# Geiriau anodd

## Amrywiaeth
Mae amrywiaeth yn meddwl cynnwys pobl gyda gwahanol gefndiroedd, fel pobl ddu, Asiaidd a lleiafrif ethnig. Mae hefyd yn meddwl cynnwys pobl o ardaloedd mwy tlawd. A phobl o wahanol rywioldebau.

## Cadw pellter cymdeithasol
Mae hyn yn meddwl cadw 2 fetr, neu tua 3 cam, oddi wrth bobl eraill i helpu i amddiffyn yn erbyn dal Covid-19.

## Cydraddoldeb
Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg.

## Cynhwysiant
Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan.

## Gweithdrefnau diogelwch
Mae hyn yn meddwl rheolau am gadw pobl yn ddiogel.

## Hygyrch
Mae hygyrch yn meddwl rhywbeth sydd yn hawdd i'w gyrraedd neu ei ddefnyddio.

## Lleiafrif ethnig
Pobl lleiafrif ethnig ydy pobl sydd yn byw mewn lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill yn hil gwahanol.

## Niwrowahanol
Pobl niwrowahanol ydy pobl y mae eu meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

## Oedolion hyglwyf
Pobl ydy oedolion hyglwyf sydd angen cefnogaeth yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

## Pobl greadigol
Mae hyn yn meddwl pobl sydd yn gwneud pethau.

## Rhywioldeb
Mae rhywioldeb am pwy mae person yn ei hoffi.